

Patrwm cyflwyno: O fis Mai i fis Hydref

Disgrifiad o'r modiwl

Bydd y modiwl hwn yn eich galluogi i weithredu'n strategol mewn sefyllfaoedd rhyng-gysylltiedig cymhleth, lle gall dealltwriaeth, cymhellion a diddordebau cyferbyniol arwain at wrthdaro yn aml. Drwy integreiddio dulliau o dri math o feddylfryd system traddodiadol i'ch ymarfer, byddwch yn datblygu gallu i wneud penderfyniadau ag ymwybyddiaeth foesegol a sensitifrwydd gwleidyddol. Byddwch yn meithrin y gallu i integreiddio gwell dealltwriaeth o ryngberthnasau, a gwell ymgysylltiad â nifer o safbwyntiau ar gynghori ar gynllunio strategol. Mae'r modiwl hwn wedi'i gynllunio i gyfoethogi eich dealltwriaeth o feddylfryd systemau wrth wneud cynnydd ymarferol mewn perthynas â sefyllfaoedd o'ch gwaith proffesiynol presennol a/neu sefyllfaoedd o ddiddordeb mwy cyffredinol i chi.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniadau sylfaenol a'r prif feysydd damcaniaethol sy'n gysylltiedig â meddylfryd systemau traddodiadol
- Dealltwriaeth ymarferol a damcaniaethol o un neu fwy o'r canlynol: Dynameg Systemau, Model System Hyfyw, Methodoleg Systemau Meddal, Dadansoddi a'r broses o Ddatblygu Opsiynau Strategol/Mapio Gwybyddol a Hewristeg Systemau Hanfodol
- Dealltwriaeth o'r heriau sydd ynghlwm â datblygu gallu systemau effeithiol
- Y gallu i gynorthwyo â datblygu ymwybyddiaeth wybyddol ac epistemolegol oedolion mewn perthynas â meddylfryd systemau.
- Y gallu i gefnogi eraill i ddelio ag ansicrwydd ac amwysedd
- Y gallu i addysgu mewn amgylchedd tîm

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- Profiad o addysgu'r canlynol: Dynameg Systemau, Model System Hyfyw, Methodoleg Systemau Meddal, Dadansoddi a'r broses o Ddatblygu Opsiynau Strategol/Mapio Gwybyddol a Hewristeg Systemau Hanfodol
- Profiad o ddefnyddio dulliau meddylfryd systemau mewn amryw o sefyllfaoedd cymhleth.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddefnyddio dimensiynau gwybyddol a seicolegol llunio strategaethau
- Profiad o ddatblygu gallu meddylfryd systemau yn y gweithle, neu mewn lleoliadau proffesiynol neu gymunedol
- Profiad o ddefnyddio dulliau archwiliadol, ymholi a chymunedol o ddysgu
- Profiad o addysgu ôl-raddedig ym maes addysg uwch

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r modiwl hwn yn orfodol ar gyfer Tystysgrif Ôl-Raddedig mewn Meddylfryd Systemau ar Waith. Wrth ddilyn astudiaethau pellach priodol, gallai hyn arwain at Ddiploma neu Radd Meistr mewn Meddylfryd Systemau ar Waith. Bydd disgwyl i diwtoriaid ar y modiwl hwn ddefnyddio adnodd cydweithio cydamserol ar gyfer tiwtorialau ar-lein.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	4
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	6

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei chymeradwyo eto, ac felly, mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.